

Dulliau o gynnwys cleifion a gofalwyr mewn prosesau PPI

Pwnc:

Cynigydd y pwnc:

Arweinydd HTW:

Gwybodaeth am grwpiau cleifion/unigolion/gofalwyr: (e.e. gan gynigydd y pwnc neu drwy adnoddau chwilio HTW)

Gwybodaeth am brosesau PPI: (e.e. sydd yn cael eu defnyddio mewn pynciau HTW tebyg)

Y pethau i'w hystyried i benderfynu ar brosesau PPI

- Ydy'r dechnoleg/model gofal a chymorth yn debygol o gael effaith sylweddol ar y claf/unigolyn/gofalwr?
- Ydy'r dechnoleg/model gofal a chymorth yn cael eu defnyddio gan y person (e.e. dyfeisiau hunanfonitro, triniaeth yn y cartref, coesau neu freichiau artiffisial, neu raglen addysgol)?
- Oes angen i'r person neu ei ofalwr baratoi'n sylweddol wrth ddefnyddio'r dechnoleg/model gofal a chymorth (e.e. glanhau'r coluddyn cyn delweddu)?
- A fydd y dechnoleg neu'r model gofal a chymorth yn newid y llwybr gofal (e.e. ysbyty yn erbyn y gymuned yn erbyn darpariaeth gartref)?
- Ydyn ni'n gwybod pa ganlyniadau sy'n bwysig i bobl (e.e. manteision a sgil-ffeithiau sy'n anodd eu rheoli neu sy'n effeithio ar fywyd bob dydd)?
- Oes materion pwysig i gleifion/unigolion/gofalwyr (safbwyntiau, profiadau neu ddewisiadau) nad ydynt efallai'n cael eu cynnwys yn yr adolygiad o dystiolaeth effeithiolrwydd clinigol (e.e. materion seicolegol neu foesegol, defnydd gan grwpiau sy'n agored i niwed fel plant neu bobl hŷn neu'r rheini sydd â nam gwybyddol)?
- Oes agweddau pwysig ar ddarparu'r dechnoleg/model gofal a chymorth sy'n gofyn am gyfathrebu clir (e.e. risgiau ymyrraeth newydd, cyfarwyddiadau gweithredu)?
- Ydy lefel diddordeb y cyhoedd/cleifion/unigolion/gofalwyr yn uchel?
- Oes grŵp neu sefydliad cymorth penodol? Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un sydd â phrofiad uniongyrchol o fyw gyda'r cyflwr/angen gofal cymdeithasol sy'n cael ei astudio neu a allai fod yn gymwys i dderbyn y dechnoleg (e.e. aelodau penodol o'r cyhoedd y gellid eu gwahodd i gael eu brechu neu i gymryd rhan mewn ymyriad diagnostig)
- Beth y gellir ei gyflawni o fewn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno canllawiau HTW?
- Oes grŵp neu sefydliad cymorth penodol? Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un sydd â phrofiad uniongyrchol o fyw gyda'r cyflwr/angen gofal cymdeithasol sy'n cael ei astudio neu a allai fod

yn gymwys i dderbyn y dechnoleg (e.e. aelodau penodol o'r cyhoedd y gellid eu gwahodd i gael eu brechu neu i ymgymryd ag ymyriad diagnostig)

Y dulliau a awgrymir i gynnwys y cleifion a'r cyhoedd (Ticiwch bob un fydd yn cael eu cynnig)	Ticiwch os oes angen
1. Mewnbyn Partneriaid Cyhoeddus	✓
2. Cynnwys profiadau a safbwyntiau cleifion/gofalwyr mewn adolygiad o effeithiolrwydd clinigol	✓
3. Crynhoi adroddiadau hygyrch ar faterion perthnasol sy'n ymwneud â chleifion/gofalwyr (e.e. gan HCRW, Llywodraeth Cymru, adroddiadau HTA eraill)	
4. Ymchwilio i faterion cleifion a gofalwyr	
5. Grŵp Ffocws i drafod materion yn ymwneud â chleifion/gofalwyr	
6. Cyfranogiad gan grwpiau/sefydliadau cleifion yng nghamau cynnar y broses PPI (e.e. dewis pynciau, cwmpasu)	
7. Cyfranogiad gan grwpiau/sefydliadau cleifion yng nghamau allweddol y broses PPI (e.e. cyflwyniad, adolygiad gan gymheiriaid (EAR), canllawiau terfynol a chrynodeb iaith glir)	
8. Cyfranogiad ychwanegol gan grwpiau /sefydliadau cleifion (e.e. cymryd rhan yn y Grŵp Asesu a/neu'r Panel Arfarnu)	